


Beth os

.....oedd gennych 3 rhif o fwy na 10? Ydy eich rheol yn gweithio o hyd?

.....oedd gennych 4 rhif?



Gwnewch gysylltiadau



Heriau Digit Dog © Lynwen Barnsley 2017


This FREE resource is available from: www.primarytreasurechest.com



Bob tro, weithiau, byth

Gwir bob amser,
gwir weithiau neu
byth yn wir?

Os dw i'n adio 3 rif
llai na 10, bydd yr
ateb yn odrif.



Fel bod yr her hon yn fwy hygyrch, defnyddiwch siapiau Numicon® yn hytrach na chardiau digid. Bydd defnyddio siapiau Numicon® yn helpu dysgwyr i gyffredinoli ac esbonio eu hymresymiad.

Cydiwch yn yr her - cyn taclo'r her, gadewch i ddysgwyr drafod beth yw amcan yr her yn eu barn nhw. Anogwch ddysgwyr i ddweud beth maen nhw'n ei weld ac i ddatod yr her .

Beth mae Digit Dog yn dweud? Esboniwch yn eich geiriau eich hun. Beth mae'n rhaid i ni ei ddarganfod?


Anogwch ddysgwyr i roi sylwadau ar esboniadau ei gilydd: Ydych chi'n cytuno gyda'r hyn y mae eich ffrind newydd ei ddweud?

Defnyddiwch Numicon® i esbonio'r her - os byddaf yn adio 3 o siapiau sy'n llai na 10, bydd y cyfanswm yn odrif - gofynnwch i blant ddewis 3 rhif i'w hadio.

Gofynnwch: Ydych chi'n credu bod datganiad Digit Dog yn wir? Allwch chi ddewis 3 rhif sy'n dangos ei fod yn wir? Allwch chi ddod o hyd i 3 rhif sy'n dangos nad yw'n wir?

Beth ydych chi'n meddwl?

Dywedodd Calculating Cat ...



Rwy'n credu bod e **bob amser yn wir** oherwydd bod $2 + 4 + 1 = 7$ ac mae 7 yn odrif.

Ydych chi'n cytuno â hi? Pam mae / nad yw hi'n iawn?

Gwneud yr her

Ymchwiliwch i'r cyfansymiau o 3 rhif sy'n llai na 10 a chofnodwch y canlyniadau.

Gofynnwch: Sut ydych chi'n mynd i gofnodi eich gwaith?

Pa gyfansymiau ydych chi wedi eu darganfod? Beth allwch chi ddweud am eich cyfansymiau?

Awgrymwch: ddefnyddio glud-nodiadau neu ddarnau o bapur i gofnodi cyfrifiadau a chyfansymiau unigol, neu defnyddio siapiau Numicon®.

Trefnwch eich gwaith

Trefnwch y cyfansymiau i odrifau ac eilrifau.

Pa batrymau ydych chi'n sylwi arnynt?

Beth allwch chi ddweud am y rhifau rydych wedi eu hadio? Ydyn nhw'n odrifau neu'n eilrifau?

Pa rifau sydd ag odrif fel cyfanswm?

Pa rai sydd ag eilrif fel cyfanswm?



Chwiliwch yn graff am batrymau

Esboniwch beth rydych yn meddwl

Ydy datganiad Digit Dog bob amser yn wir?

Gwir weithiau? Byth yn wir? Sut ydych chi'n gwybod?

Darbwyllwch eich hun. Darbwyllwch eich ffrind.

Allwch chi feddwl am reol a fydd yn gweithio ar gyfer unrhyw rifau?

Trefnwch yr enghreifftiau y mae dysgwyr wedi eu creu mewn grwpiau, e.e. 3 odrif, 3 eilrif, y rhai sy'n gwneud odrif fel cyfanswm, y rhai sy'n gwneud eilrif fel cyfanswm, 2 eilrif a 1 odrif, 2 odrif ac 1 eilrif.

Meddyliwch eto am ddatganiad Calculating Cat. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno?